

CYMDEITHION BORE OES GWALLTER MECHAIN*


Allan o ysgrif gan Cynddelw yn Y Genhinen, (Cyfrol III), 1875.

Cyfoeswr â Gwallter oedd **Thomas Morris** o Bentregwyn-bach, Llansilin. Canwr enwog oedd T.M. Arferai ganu salmau yn Eglwys Llansilin hyd ei ddiwedd. Dywedai yr hen bobl y byddai y ddau yn cwrdd â'i gilydd nos Nadolig: Gwallter yn cyfansoddi carol; Thomas Morris yn ei dysgu, ac yn ei chanu y plygain fore trannoeth...

Cyfaill arall i Gwallter Mechain oedd **Thomas Hughes**, neu 'Twm y Canwr'. Brodor o'r Wern-lydan, yn Mochnant, oedd hwn. Yr oeddwn yn ei adnabod yn dda. Hynafgwr penfoel ydoedd yn fy nghof i, yn gwisgo *frock* o liain cryf, fel y byddai gweision a gweithwyr ffermydd y wlad honno. Ei orchest fawr fyddai canu carol ar 'Ffarwel Ned Puw' neu ryw hen fesur hirdrwm cyffelyb. Tybiaf na fedrai ddarllen, ac mai cofio y carolau y byddai: ni byddai ganddo lyfr wrth ganu, beth bynnag.

Cof gennyf ei glywed yn canu yn Eglwys Llanrhaiadr, nos Nadolig. Safai yn yr *alley*, â'i freichiau ymhleth ar ei ddwyfron, a'i ben i fyny, a'i lais yn gryf a chraslyd, ac yn *roario* canu nes yr oedd yr hen Eglwys yn diaspad. Byddai yn arfer myned yn fynych at G.M. i Fanafon, i geisio carol newydd: a dywedai ei fab wrthyf y byddai yr hen fardd yn hynod o garedig wrtho, yn ei gadw yno am bythefnos, &c.

* *Gwallter Mechain - Y Parch. Walter Davies (1761-1849):
offeiriad, bardd, hynafiaethydd. Ganwyd yn Llanfechain.
Bu'n offeiriad ym Meifod, Ysbyty Ifan, Llanwyddelan,
Manafon a Llanrhaeadr ym Mochnant*



** *Cynddelw - Y Parch. Robert Ellis (1812-75). Ganwyd ym
Mhen-y-bont-fawr: pregethwr, bardd, hynafiaethydd. Bu'n
weinidog yn Llanelian/Llanddulas, Glynceiriog,
Sirhowy(Tredegar), a Chaernarfon. Bu farw yn ei hen gartref,
Gartheryr (Llangedwyn)*